Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd nos Fercher, 6 Rhagfyr 2023 am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, Ms R. Roberts, Ms V. Roberts, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 51. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr B. Mellor a Miss S. L. Roberts.

## 52. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNION (ATODLEN A) – MIS TACHWEDD 2023

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Taleb Rhif | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau/gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1526 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol HW |
| 1722 | HSBC | 8.00 | Ffi bancio |
| 1526 | Tesco | 12.99 | Costau ffôn symudol HW |
| 1658 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 1,166.67 | Swyddog Apeliadau 23/24 – taliad 8 o 12 |
| 1723 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 2,983.50 | Didyniadau Talu wrth Ennill – mis Hydref 2023 |
| 1724 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,737.10 | Didyniadau pensiwn a chyllido'r diffyg – mis Hydref 2023 |
| 1725 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,861.70 | Tâl net – mis Tachwedd 2023 |
| 1617 | Cyngor Sir Ddinbych | 753.00 | Ardrethi Annomestig y Swyddfeydd Dinesig 2023/24 – taliad 8 o 10 |
| 1539 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol GN |
| 1539 | Tesco | 12.99 | Costau ffôn symudol GN |
| | Cyfanswm y taliadau | **17,541.95** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y Cyfrif Hysbysiad 31 Diwrnod | 295.99 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 17.64 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 17.65 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 17.65 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 17.65 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod | 17.65 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **384.23** |

***__PENDERYNWYD__*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.*

## 53. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Rhif taleb | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1741 | Band Arian y Rhyl | Cyfraniad am wasanaeth Sul y Cofio | 50.00 |
| 1742 | Ambiwlans Sant Ioan Cymru | Cyfraniad am wasanaeth Sul y Cofio | 50.00 |
| 1743 | SLCC | Ffioedd proffesiynol Mr G. J. Nickels (Clerc y Dref) | 418.00 |
| 1744 | CIPFA | Ffioedd proffesiynol Mr A. O. Williams (Swyddog Cyllid) | 380.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **898.00** |

***__PENDERFYNWYD__*** *cymeradwyo'r taliadau yn yr atolden a'u llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 54. PENODI ARCHWILWYR MEWNOL AC ALLANOL AM Y FLWYDDYN ARIANNOL 2023/34

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddo a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) ynghylch penodi archwilwyr y Cyngor, JDH Business Services, i wneud yr archwilio mewnol. Mae'r cwmni yn archwilydd mewnoli i 90% o Gynghorau Tref a Chymuned yng ngogledd Cymru ac yn cael ei ystyried yn arbenigwr yn y maes.

Swyddfa Archwilio Cymru yw archwilydd allanol awtomatig yr holl Gynghorau Tref a Chymuned.

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau ystyried a oedd ganddynt fuddiant personol neu fuddiant busnes i'w ddatgan yng nghyswllt y ddau benodiad.

***__PENDERFYNWYD__*** *cymeradwyo'r penodiadau.*

## 55. PENODI CYNRYCHIOLWYR AR SEFYDLIADAU ALLANOL: GRŴP GWEITHREDU DEMENTIA Y RHYL

Adroddodd y Cadeirydd y derbyniwyd gohebiaeth gan y grŵp uchod (a ddobsarthwyd gyda'r agenda) a gofynnodd i'r aelodau ystyried penodi cynrychiolwyd i fynd i gyfarfodydd y grŵp ar ran y Cyngor Tref yn y dyfodol.

***__PENDERFYNWYD__*** *penodi'r Cynghorydd A. J. Rutherford.*

## 56. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR Y DDINBYCH – GORCHYMYN DIOGELU MANNAU AGORED CYHOEDDUS – CAIS I ANERCH Y CYNGOR TREF

Adroddodd Clerc y Dref y derbyniwyd gohebiaeth gan Gyngor Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn gofyn i'r aelodau a gaiff cynrychiolwyr ddod i gyfarfod y Cyngor Tref yn y dyfodol i drafod telerau newydd arfaethedig y Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus yn y Rhyl.

Cynghorodd Clerc y Dref nad oeddynt yn medru dod i gyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr, ond y gallent ddod i'r cyfarfod ym mis Ionawr.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y cais i'r cynrychiolwyr ddod i gyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr.*

## 57. EITEMAU AELODAU: COELCERTH AC ARDDANGOSFA TÂN GWYLLT Y RHYL

Cynghorodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE wedi gofyn am roi'r eitem ar yr agenda oherwydd pryderon a fynegwyd am y digwyddiad, ond nad oedd yn bresennol.

***PENDERFYNWYD*** *gohirio'r eitem i'w thrafod yn y cyfarfod nesaf, gyda'r Cynghorydd Butterfield yn bresennol.*

## 58. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

*Argymhellir, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, y dylid eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, ar sail cyfrinachedd.*

## 59. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL: PRYNU / GOSOD PLAC PORFFOR ER COFFA AM DOROTHY MILES

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r cofnodion) yn dilyn cais gan historypoints.org yn gofyn i'r aelodau ystyried gwneud cyfraniad tuag at ddarparu Plac Porffor i ddynodi cartref plentyndod Dorothy Miles yma yn y Rhyl, wnaeth arloesi gyda datblygu Iaith Arwyddion Prydain i'r byddar.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais a chymeradwywyd cyfraniad o £1,000 a fyddai'n cynnwys y plac a lluniaeth ysgafn adeg dadorchuddio'r plac.*

## 60. COFNODION CYFRINACHOL

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) er gwybodaeth i'r aelod ac i gymeradwyo'r argymhellion a gynhwyswyd ynddynt:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | 10 Gorffennaf 2023 | - | Cofnodion rhifau 10-14 |
| Yr Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd | - | 10 Gorffennaf 2023 | - | Cofnodion rhifau 1-8 |
| Yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau | - | 26 Gorffennaf 2023 | - | Cofnodion rhifau 7-15 |

Y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol - 11 Medi 2023 - Cofnodion rhifau 15-20

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r cofnodion.*

**61. POLISI RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) er gwybodaeth i'r aelodau a gofynnodd i unrhyw enwebiadau gael eu cyflwyno iddo yn ysgrifenedig erbyn dim hwyrach na hanner dydd ar ddydd Llun, 11 Rhagfyr 2023.

Cyflwynodd Clerc y Dref esboniad cryno o'r polisi i'r aelodau newydd.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**62. CYLLIDEB FLYNYDDOL 2024/25 / CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at argymhellion y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) ynghylch Cyllideb Flynyddol 2024/25 i'w argymell yn ddilynol i gyfarfod y Cyngor i'w gynnal ar 20 Rhagfyr 2023, ac argymell praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhellion i gyfarfod y Cyngor ar 20 Rhagfyr 2023.*

**63. EITEM YCHWANEGOL: CANOLFAN GROESO'R RHYL AC AMGUEDDFA'R RHYL**

Cynghorodd Clerc y Dref fod Cynghorwyr Sir Ddinbych wedi derbyn neges e-bost yn ddiweddar gan Mr Peter McDermott yn eu hysbysu am astudiaeth ddichonoldeb roedd wedi'i chomisiynu i ystyried y potensial o 'gyd-leoli' y ddwy ddarpariaeth, a allai gael effaith ar gynlluniau'r Cyngor Tref i adleoli i adeilad y Bee and Station.

Gofynnodd Clerc y Dref am awdurdod yr aelodau i gynnig y 'cyd-leoli' yn adeilad y Bee and Station, gan fod y Ganolfan Groeso yn un o ddewis wasanaethau'r Cyngor Tref i'w adleoli i'r Bee and Station.

**Ymunodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield â'r cyfarfod yn ystod yr eitem uchod.**

**[Datganodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James fuddiant rhagfarnol yn yr eitem uchod oherwydd ei swydd fel aelod Cabinet Cyngor Sir Ddinbych a gadawodd y cyfarfod, heb gymryd rhan yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar yr eitem.]**

64. DIWEDDU'R CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod wedi diweddu.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ………………………